# Dehongli’r brîff a pharatoi’r delweddiad dylunio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dod i gytundeb llawn a chyd- ddealltwriaeth o'r brîff a'r delweddiad dylunio. Yn ogystal, mae'n ymwneud â sicrhau ei fod yn bodloni'r weledigaeth greadigol a'i fod yn ymarferol ac yn gyraeddadwy gan gadw at y gyllideb a'r paramedrau amser.

Mae'n broses ailadroddol a gallai ymwneud â sawl fersiwn. Mae'n bosibl bydd gofyn ichi ymwneud gyda brîff sydd wedi'i ddiffinio ymlaen llaw, mireinio'r brîff hwnnw, neu fynd ati i lunio brîff o'r newydd.

Mae'r safon hon yn arbennig ar gyfer dylunwyr Cynyrchiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod gofynion neu gysyniad creadigol posibl y cyfarwyddwyr, y cynhyrchwyr neu'r timau creadigol
2. casglu gwybodaeth am y cyfnod, y genre a'r math o gynhyrchiad yn gysylltiedig â'r gofynion dylunio er mwyn gwneud penderfyniadau dylunio creadigol
3. dehongli brîff y cynhyrchiad gan ystyried ei ymarferoldeb er mwyn bodloni'r weledigaeth greadigol
4. awgrymu diwygiadau, ychwanegiadau neu newidiadau er mwyn gwella'r brîff pan fo'i angen
5. datblygu delweddiad dylunio sy'n portreadu'r cyfnod, y lleoliad a'r cyd-destun dymunol
6. ystyried sut gallai defnyddio effeithiau gweledol neu arbennig effeithio ar y delweddiad dylunio
7. cadarnhau gyda'r bobl berthnasol fod gennych chi gyd-ddealltwriaeth o'r dyluniad
8. gwirio a chadarnhau bod eich dehongliad a'ch delweddiad dylunio'n dechnegol ymarferol
9. gwirio a chadarnhau bod modd cyflawni'r delweddiad dylunio i fodloni gofynion y cynhyrchiad
10. awgrymu dewisiadau amgen dichonol os yw'r gofynion yn newid

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gaffael brîff y cynhyrchiad a sut i ddehongli'r gofynion dylunio
2. ble i ganfod gwybodaeth am y gyllideb, yr amserlen a'r lleoliad tebygol
3. sut mae eich profiad, sgiliau, gwybodaeth a'ch barn yn dylanwadu ar eich cyfraniad creadigol
4. sut i bortreadu amser, lleoliad, a chyd-destun drwy liw, dyluniad a gwrthrychau
5. y ffynonellau gwybodaeth ynghylch lliw, dyluniad a gwrthrychau ar gyfer cyfnodau, genres, lleoliadau a chyd-destunau penodol
6. sut gellir defnyddio effeithiau gweledol i wella dyluniad y cynhyrchiad
7. yr adnoddau cynrychioliad gweledol a buddion ac anfanteision y rhain
8. sut i gyflwyno a chyfiawnhau eich dyluniadau
9. sut i adnabod y goblygiadau cost ac ymarferoldeb gwireddu delweddiadau, gan gynnwys deunyddiau, cyfarpar, lleoliadau a chyllidebau
10. y gofynion a'r asesiadau ymarferoldeb technegol
11. effaith y gofynion newidiol gan gynnwys toriadau i gyllidebau neu weledigaeth greadigol sy'n newid

Dehongli’r brîff a pharatoi’r delweddiad dylunio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSDP1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio; |
| **Cyfres/Set** | Dylunio Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | brîff; dyluniad; delweddiad; cytundeb; dealltwriaeth; gweledigaeth; cyllideb; amser; paramedrau; |